

WJEC AS/A2 English Language and Literature Level 3



Yn gwyno

Gyda chyfuniad bywiog o waith ymchwil ac ysgrifenedig ymarferol, mae'r gwaith hwn yn ymdrin ag ystod o astudiaethau Saesneg.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych wrth eich bodd yn darllen ac ysgrifennu
- ... Ydych yn mwynhau dadansoddi a thrafod llenyddiaeth
- ... Hoffwch ddealltwriaeth ddyfnach o lenyddiaeth

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae Iaith a Llenyddiaeth Saesneg Lefel U yn bwnc dwys ond pleserus, sy'n caniatáu lle i drafod a datblygu eich syniadau eich hun. Bydd y pwnc hwn yn apelio atoch chi os ydych yn mwynhau darllen llyfrau a'u trafod gydag eraill, ysgrifennu bob mathau a dadansoddi testunau

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

ffuglen a ffeithiol yn fanwl.

Byddwch yn astudio dwy uned ar Lefel UG a thair uned ar Lefel U. Trwy gydol y cwrs byddwch yn dysgu fframweithiau astudiaeth iaith a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarllen yn ddadansoddol-fanwl. Byddwch yn dysgu i ddadansoddi a chymharu amrywiaeth o destunau ysgrifenedig ac ar lafar ac ysgrifennu rhai darnau creadigol.

Ar Lefel UG, byddwch yn astudio antholeg o farddoniaeth cyn 1914, *In Cold Blood* gan Truman Capote (rhyddiaith) ac *A Streetcar Named Desire* gan Tennessee Williams (drama). Ar Lefel U, byddwch yn astudio *King Lear* gan Shakespeare (drama), *The Handmaid's Tale* gan Margaret Atwood (rhyddiaith) a byddwch yn cynhyrchu ffolder o waith cwrs o 2500-3500 gair, wedi'i ysbrydoli gan genre llenyddiaeth o'ch dewis chi.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Bydd gwaith cartref rheolaidd, gwaith dosbarth, marciau profion a graddau arholiadau ffug yn eich galluogi chi i fesur eich cynnydd. Ar Lefel UG, cewch eich asesu'n ffurfiol drwy ddau arholiad yn yr haf a thrwy waith cwrs a dau arholiad yn yr haf ar Lefel U. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Iaith a Llenyddiaeth Saesneg Lefel UG
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg Lefel U
Gweithgareddau sgiliau

[Saesneg a Mathemateg](#)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg/Rhifedd Mathemateg a Gradd B mewn Iaith neu Llenyddiaeth Saesneg.

Bydd angen i chi allu cymell eich hun, gweithio'n galed, dangos brwdfrydedd tuag at lenyddiaeth a mwynhau darllen ac ysgrifennu yn eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae Saesneg yn gymhwyster uchel ei barch a all fod yn fan cychwyn i nifer o yrfaedd. Mae'n arbennig o ddefnyddiol i unrhyw un sy'n bwriadu mynd i'r maes Addysgu, y Gyfraith, Newyddiaduraeth, Rheolaeth o bob math a Gwyddor Gymdeithasol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

